

Papur Cefndir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2:

Mwynau

Atodiad mis Gorffennaf 2024, sy'n ystyried 2^{il} Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau

Cynnwys

| | <i>Tudalen</i> |
|---------------|----------------|
| Cyflwyniad | 2 |
| Cefndir | 2 |
| Manylion | 4 |
| Prif Faterion | 9 |
| Casgliadau | 12 |

1 Cyflwyniad

- 1.1 Paratowyd Papur Cefndir CDLI 2 ar Fwynau gan y Cyngor ym mis Mai 2019. Roedd hwn wedi'i osod yn y cyd-destun a ddarparwyd gan Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 Llywodraeth Cymru a chyfres o Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau cysylltiedig. Roedd hefyd yn adlewyrchu'r sefyllfa ranbarthol ar gynllunio mwynau a nodwyd yn Adolygiad 1^{af} Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau De Cymru ac amryw Adroddiadau Blynyddol a baratowyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol y De (SWRAWP).
- 1.2 Ers paratoi'r Papur Cefndir, cyhoeddwyd argraffiadau olynol o Bolisi Cynllunio Cymru (12 yw'r argraffiad cyfredol, lle gwelir y prif gyngor ar fwynau nad ydynt yn ynni wedi'i gynnwys yn adran 5.14) ac mae 2^{il} Adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau De Cymru, wedi'i gwblhau. Mae SWRAWP hefyd wedi cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol pellach, a'r mwyaf diweddar ohonynt ar gyfer 2021 (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024).
- 1.3 Yn bennaf, diben yr Atodiad hwn i'r Papur Cefndir gwreiddiol yw ystyried 2^{il} Adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau De Cymru, (2^{il} Adolygiad DTRh) yn 2020.

2 Cefndir

- 2.1 Cyhoeddwyd y Datganiad Technegol Rhanbarthol gwreiddiol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol y De a'r Gogledd (DTRh) ym mis Hydref 2008. Roedd yn cyflwyno dull cynaliadwy o ddatblygu mwynau yng Nghymru. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol wedi elwa o'r cyfarwyddyd clir a geir yn y DTRh. Mae diogelu adnoddau mwynau bellach yn rhan annatod o Gynlluniau Datblygu Lleol ac mae dyraniadau newydd, ardaloedd chwilio diffiniedig ac ardaloedd a ffefrir wedi'u hymgorffori mewn rhai Cynlluniau Datblygu Lleol.

- 2.2 Cwblhawyd adolygiad cyntaf DTRh yn 2014. Cyhoeddwyd yr ail adolygiad ym mis Medi 2020 – ac felly ni chyfeiriwyd at ei gynnwys yn y Papur Cefndir CDLI 2 ar Fwynau a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019.
- 2.3 Paratowyd 2^{il} Adolygiad DTRh ar ran Gweithgorau Agregau Rhanbarthol y De a’r Gogledd gan Cuesta Consulting Ltd, gyda chyngor gan grŵp llywio a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o’r ddau Weithgor Agregau Rhanbarthol, Cymdeithas Cynhyrchion Mwynau, y Diwydiant Mwynau, Cyfoeth Naturiol Cymru, swyddogion Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru. Yr elfen ar gyfer De Cymru yn 2^{il} Adolygiad DTRh sy’n cynnwys gwybodaeth sy’n uniongyrchol berthnasol i Sir Benfro.
- 2.4 Mae 2^{il} Adolygiad DTRh yn cwmpasu cyfnod o 25 mlynedd hyd at 2041, ond ceir adolygiadau pellach, a ddechreuir bob 5 mlynedd, yn unol â gofynion Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (MTAN1).
- 2.5 Mae 2^{il} Adolygiad DTRh yn ddogfen strategol at ddibenion paratoi Cynllun Datblygu a gall fod yn ystyriaeth berthnasol wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Mae’n cynnwys datganiad cadarn a gwell o’r dyhead i sicrhau bod cynaliadwyedd wrth wraidd cynllunio mwynau yng Nghymru yn y dyfodol.
- 2.6 Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y ddau Weithgor Agregau Rhanbarthol a chan Lywodraeth Cymru, gofynnwyd i bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru gymeradwyo dogfennaeth 2^{il} Adolygiad DTRh. Cymeradwyodd Cabinet CSP y Cynllun yn eu cyfarfod ar 30 Tachwedd 2020. Mae manylion y penderfyniad wedi’u cynnwys isod:

(a) Cymeradwyo’r Datganiadau Technegol Rhanbarthol (DTRh) ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol y Gogledd a’r De – Ail Adolygiad, mis Medi 2020.

(b) Cytuno’r camau nesaf i fodloni’r dosraniad a nodir yn 2^{il} Adolygiad DTRh, trwy baratoi Datganiad o Gydweithrediad Is-ranbarthol ar gyfer Is-ranbarth Gorllewin Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Gâr ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

(c) Caniatáu pwerau dirprwyedig i'r Aelod Cabinet dros Gynllunio gymeradwyo'r Datganiad o Gydweithrediad Is-ranbarthol ar gyfer Is-ranbarth Gorllewin Cymru.

3 Manylion

- 3.1 Mae MTAN 1 ar Agregau yn gofyn am baratoi Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer ardaloedd y mae Gweithgorau Agregau Rhanbarthol y De a'r Gogledd yn eu cwmpasu.
- 3.2 Mae MTAN 1 yn datblygu polisi cenedlaethol a gynhwyswyd yn wreiddiol ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru ac sydd bellach wedi'i ymgorffori ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae'r DTRh yn darparu'r manylion ategol sy'n caniatáu i hyn gael ei weithredu.
- 3.3 Mae'r DTRh wedi osgoi unrhyw ymgais i wneud rhagolygon manwl o'r galw yn y dyfodol yn seiliedig ar foddelu econometreg. Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn Adolygiad 1^{af} DTRh yn 2014 yn seiliedig yn bennaf ar gyfartaleddau gwerthiant hanesyddol, ynghyd ag asesiad o'r gwahanol sbardunau am newid posibl yn y dyfodol. Ar gyfer 2^{il} Adolygiad DTRh, cyfunwyd hyn ag ymgais i adlewyrchu gofynion a gynlluniwyd am y dyfodol ar gyfer gweithgaredd adeiladu tai. Mae'n ceisio osgoi parhau â phatrymau cyflenwi hanesyddol mewn ardaloedd lle mae cyfle i annog patrymau cyflenwi mwy cynaliadwy. Mae'r data a ddefnyddiwyd at y diben hwn wedi'i gymryd o Gynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Y bwriad yw cysylltu'r ddarpariaeth agregau a gynlluniwyd â'r hyn sydd ar gyfer tai, er mwyn sicrhau nad yw cynlluniau tai yn cael eu rhwystro gan ddiffyg darpariaeth agregau.
- 3.4 Ar raddfa Genedlaethol, mae cydberthynas gref iawn rhwng tai a gwblhawyd a gwerthiant agregau.

3.5 Daeth Grŵp Llywio 2^{il} Adolygiad DTRh i'r casgliad y dylai'r ddarpariaeth agregau sydd ei hangen gael ei harwain gan ymgodiad o 30% ar ffigurau gwerthiant hanesyddol. Roedd hefyd o'r farn, ar gyfer 2^{il} Adolygiad, y dylai'r ffigurau gwerthiant hanesyddol adlewyrchu nid yn unig y cyfartaledd 10 mlynedd (fel y'i defnyddiwyd ar gyfer yr Adolygiad 1^{af}) ond hefyd yr uchaf o'r cyfartaleddau 10 mlynedd a 3 blynedd ar gyfer pob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol unigol. Gwneir hyn i adlewyrchu'r ffaith bod rhai ardaloedd yng Nghymru (yn enwedig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd) wedi gweld cynnydd sylweddol mewn gwaith adeiladu dros y blynnyddoedd diwethaf a thwf cyfatebol mewn gwerthiant agregau.

3.6 Roedd proses paratoi'r 2^{il} Adolygiad DTRh yn seiliedig ar bedwar cam, a chrynohir y manylion isod:

Cam 1 – ychwanegwyd ymgodiad o 30% at y ffigur gwerthiant hanesyddol cyfansawdd i gael ffigur cyfanswm canllaw cenedlaethol ar gyfer cynhyrchu agregau yn y dyfodol.

Cam 2 – rhannwyd y ffigur cenedlaethol yn ddau ffigur canllaw rhanbarthol (yn seiliedig ar raniad hanesyddol cyfanswm yr agregau crai a dynnwyd o'r tir rhwng Gogledd Cymru a De Cymru, sydd wedi aros yn weddol gyson dros nifer o flynyddoedd).

Cam 3 - dosrannwyd y ffigurau rhanbarthol rhwng saith isranbarth ac, ar yr amod ei bod yn ddichonadwy gwneud hynny, rhwng pob un o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfansoddol. Crëwyd yr isranbarthau ar awgrym Llywodraeth Cymru, i hwyluso cynllunio mwynau strategol a dulliau cydweithredol rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol. Fel arfer, cyflawnir dosbarthu dosraniadau o fewn pob isranbarth trwy gyfuniad o farnau meintiol ac ansoddol, yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth y Grŵp Llywio o ofynion y farchnad (gan adlewyrchu gwerthiant hanesyddol a dosbarthiad gweithgaredd tai a gynlluniwyd), ynghyd ag ystyriaethau am fanciau tir presennol, yr egwyddor agosatrywydd a'r gallu amgylcheddol. Mae ardal gynllunio Cyngor Sir Benfro o fewn Is-ranbarth Gorllewin Cymru, ynghyd â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Cheredigion.

Cam 4 – rhennir cyfanswm y dosraniadau ar gyfer pob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol yn ffigurau ar gyfer cynhyrchu a) tywod a graean a b) creigiau wedi'u malu (yn seiliedig ar gyfrannau gwerthiant hanesyddol ym mhob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol).

Yna, lluosir y ffigurau hynny â nifer y blynyddoedd sydd eu hangen (22 mlynedd ar gyfer tywod a graean 25 mlynedd ar gyfer creigiau wedi'u malu) i gael cyfanswm y ddarpariaeth sydd ei hangen, mewn miliynau o dunelli. Mae cymharu'r ffigurau hynny â banciau tir presennol a dosraniadau presennol nad ydynt wedi'u gweithio eto, yn penderfynu wedyn i ba raddau y mae angen unrhyw ganiatâd a / neu ddyraniadau newydd ar gyfer gwaith yn y dyfodol o fewn ardal pob awdurdod.

- 3.7 Mae dogfen 2^{il} Adolygiad DTRh yn cyflwyno'r gofyniad ar i bob Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn pob is-ranbarth greu Datganiadau o Gydweithrediad Is-ranbarthol (SSRC), mewn ymgynghoriad â'r diwydiant, drwy'r Gweithgorau Agregau Rhanbarthol, cyn Archwilio unrhyw Gynllun Datblygu Lleol unigol o fewn yr ardal honno. Mae Atodiad A y prif adroddiad yn rhoi canllawiau ar baratoi Datganiadau o Gydweithrediad Is-ranbarthol, gan gynnwys manylion yr amgylchiadau lle gellir cyfiawnhau patrymau cyflenwi amgen. ***Bydd angen i SSRC ar gyfer Is-ranbarth Gorllewin Cymru fod ar waith cyn i CDLI 2 y Cyngor gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio.***
- 3.8 Bwriedir i argymhellion 2^{il} Adolygiad DTRh fod o natur strategol. Nid ydynt yn rhoi gwybodaeth nac arweiniad safle-benodol. Bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn penderfynu sut y dylid bodloni'r gofynion strategol a nodwyd yn 2^{il} Adolygiad DTRh o fewn eu hardaloedd. Bydd hyn yn cynnwys nodi maint a lleoliad dyraniadau newydd (lle bo hynny'n ofynnol gan y DTRh neu gan ffactorau lleol) a llunio polisiau o fewn eu Cynlluniau Datblygu Lleol i arwain y broses Rheoli Datblygu ar gyfer echdynnu mwynau yn y dyfodol.
- 3.9 Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol wyro oddi wrth y ffigurau dosrannu a dyrannu a argymhellir yn 2^{il} Adolygiad DTRh wrth baratoi eu polisiau CDLI, os bydd tystiolaeth newydd yn cyfiawnhau hynny. Wrth wneud hynny, byddai'n rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol ddangos na fyddai eu gwyro arfaethedig yn tanseilio'r strategaeth gyffredinol a ddarperir gan y DTRh. Byddai hyn yn debygol o ofyn am gydweithio ag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill o fewn yr un is-ranbarth i sicrhau bod y cyfansymiau isranbarthol a rhanbarthol yn dal i gael eu cyflawni. Byddai angen i hyn gael ei adlewyrchu yn y SSRC y cytunwyd arno gan bob Awdurdod Cynllunio Lleol cyfansoddol arall o fewn yr is-ranbarth hwnnw, cyn archwilio'r CDLI.

3.10 Os na all yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan ddod i gytundeb, neu os na fydd awdurdodau lleol unigol yn derbyn 2^{il} Adolygiad DTRh, pan fetha popeth arall bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ei phwerau diofyn i ymyrryd ym mhroses y Cynllun Datblygu (paragraff A3, MTAN 1).

3.11 Wrth ystyried dogfennaeth 2^{il} Adolygiad DTRh, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Yn Sir Benfro, parhau y mae'r dyhead hirdymor i roi'r gorau i gynhyrchu mwynau yn ardaloedd y Parc Cenedlaethol, er cydnabyddir bod cynhyrchu yn digwydd ar hyn o bryd, a bydd cynhyrchu yn y dyfodol, o dan gydsyniadau byw.
- Mae Sir Benfro o fewn ardal Gweithgor Agregau Rhanbarthol y De.
- Mae Sir Benfro o fewn grŵp is-ranbarthol Gorllewin Cymru yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru, fel y penderfynir at ddibenion dosrannu agregau crai a dynnir o'r tir.
- Ystyrir argaeledd agregau amgen yn adran 3 prif ddogfen 2^{il} Adolygiad DTRh. Mae'r rhain yn cynnwys agregau eilaidd, agregau wedi'u hailgylchu ac agregau drwy dreillio gwely'r môr. Mae glanfeydd ar gyfer glanio agregau a geir o Fôr Hafren ac o aber afon Hafren drwy dreillio gwely'r môr, er enghraifft ym Mhorth Tywyn (Is-ranbarth Abertawe) ac yn Noc Penfro (Is-ranbarth Gorllewin Cymru). Mae'r gofyniad am agregau crai a dynnir o'r tir yn ofyniad gweddilliol gan ystyried yr hyn y disgwylir ei gynhyrchu o ffynonellau eilaidd, ailgylchu a threillio gwely'r môr.
- Mae'r Nodyn Cyfarwyddyd ar Gydweithrediad Is-ranbarthol wedi'i nodi yn Atodiad A y prif adroddiad. Bydd Datganiadau o Gydweithrediad Is-ranbarthol yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Strategol o fewn yr ardaloedd dan sylw.

3.12 Mae Atodiad B 2^{il} Adolygiad DTRh yn ymwneud yn benodol ag ardal Gweithgor Agregau Rhanbarthol y De (SWRAWP). Mae'r Atodiad hwn yn rhoi esboniad ychwanegol, sy'n benodol i Ranbarth SWRAWP, ar batrymau cyflenwi presennol, dadansoddiad manwl o ddosraniadau is-ranbarthol a gofynion am ddyraniadau newydd. Mae argymhellion a chyfarwyddyd penodol ar gyfer pob Awdurdod Cynllunio Lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Benfro.

- 3.13 O ran cynhyrchu tywod a graean, mae is-ranbarth Gorllewin Cymru yn llai dibynnol ar agregau morol nag y mae De Cymru ac mae nifer o safleoedd gweithredol, ar y tir, yn bennaf ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac yng Ngheredigion. O ran creigiau wedi'u malu, mae Sir Benfro yn cyfrannu at gynhyrchu o'i hamryw chwareli calchfaen, igneaidd, llechi a siâl.
- 3.14 Awgryma 2^{il} Adolygiad DTRh y byddai manteision i ddatblygu dull cyfunol ar gyfer dosraniadau a dyraniadau tywod a graean o'r tir rhwng Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol. Er bod Sir Gaerfyrddin mewn is-ranbarth ar wahân (yn bennaf oherwydd y farchnad creigiau wedi'u malu yn ardal Abertawe), mae 2^{il} Adolygiad DTRh yn argymhell y dylai'r trefniadau cydweithio hyn barhau o ran tywod a graean.

4 Prif Faterion

4.1 Mae Atodiad B 2^{ll} Adolygiad DTRh yn ymwneud ag ardal y SWRAWP ac mae'n cynnwys cyngor penodol i Gyngor Sir Benfro o ran darpariaeth agregau yn y dyfodol. Dyma brif elfennau'r cyngor hwnnw:

- A) Mae'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio gynnwys yn ei Gynllun Datblygu Lleol ddarpariaeth ar gyfer agregau crai a dynnir o'r tir yn y dyfodol, ar sail y dosraniadau blynyddol canlynol:
- Darpariaeth tywod a graean a dynnir o'r tir: Dim.
 - Darpariaeth agregau creigiau wedi'u malu: 0.677 miliwn o dunelli'r flwyddyn tan ddiwedd cyfnod y Cynllun ac am 10 mlynedd wedi hynny.
- B) Cyfanswm y dosraniadau ar gyfer Sir Benfro, fel y'u cyfrifir yn Nhablau 5.5 a 5.7 y brif ddogfen, dros y cyfnod 22 mlynedd sydd ei angen am dywod a graean a'r cyfnod 25 mlynedd sydd ei angen am greigiau wedi'u malu yw sero am dywod a graean a dynnir o'r tir a 16.932 miliwn o dunelli am greigiau wedi'u malu. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu â'r ffigurau ar gyfer banciau tir presennol (ac eithrio safleoedd segur), sef sero am dywod a graean ac 16.72 miliwn o dunelli am greigiau wedi'u malu (fel ar 31 Rhagfyr 2016).
- C) O ystyried nad oes gan Sir Benfro unrhyw weithrediadau tywod a graean ar hyn o bryd, a bod ei chronfeydd wrth gefn a ganiateir o greigiau wedi'u malu yn agos iawn at gyfanswm y dosraniad sydd ei angen, nid oes gofyn penodol i nodi dyraniadau ar gyfer y naill na'r llall o fewn y CDLI ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dylid ystyried a yw unrhyw un o'r ffactorau a nodir ym mharagraff B84 prif ddogfen 2^{ll} Adolygiad DTRh yn golygu bod unrhyw ofynion eraill ar gyfer dyraniadau adnoddau.

- D) O ystyried agosrwydd ardal gynllunio Cyngor Sir Benfro i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn ogystal ag i Geredigion, a'r angen i ddod o hyd i ffynonellau newydd o dywod a graean y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, cynghorir Cyngor Sir Benfro y dylid parhau i weithio ar y cyd â'r awdurdodau hynny er mwyn cefnogi'r amcan ehangach o gynnal cyflenwadau digonol o fewn is-ranbarth Gorllewin Cymru yn ei gyfanrwydd. Yn amodol ar yr amgylchiadau a'r ystyriaethau a nodir yn Atodiad A prif ddogfen y DTRh, efallai y bydd angen iddi hefyd gydweithio â Sir Gaerfyrddin gerllaw. Os bydd angen, efallai y bydd rhaid i'r awdurdod gynyddu ei gyfran o'r dosraniad is-ranbarthol cyfunol ar gyfer tywod a graean, o'i gymharu â'r ffigurau a roddir uchod ac o dan yr amgylchiadau hynny, mae cryn bosibilrwydd y bydd angen nodi dyraniadau newydd. Nid yw hyn yn berthnasol i'r dosraniad ar gyfer creigiau wedi'u malu. Pe gwneir trefniadau o'r fath, byddai angen eu cadarnhau mewn Datganiad o Gydweithrediad Is-ranbarthol, wedi'i greu yn unol â'r cyfarwyddyd a nodir yn Atodiad A prif ddogfen 2^{il} Adolygiad DTRh, cyn cyflwyno unrhyw un o'r Cynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol i'w harchwilio.
- E) Lle bo angen dyraniadau, dylid nodi'r rhain, cyn belled ag y bo modd, fel Safleoedd Penodol neu, yn niffyg hynny, fel Ardaloedd a Ffefrir. Os metha popeth arall, a dim ond nodi Ardaloedd Chwilio eang sy'n bosibl, dylai'r rhain fod yn ddigonol i gynnig y posibilrwydd o gronfeydd wrth gefn llawer mwy o faint, er mwyn adlewyrchu'r ansicrwydd sydd ynghlwm.
- F) O ystyried argaeledd adnoddau creigiau wedi'u malu a thywod a graean nad ydynt wedi'u gweithio yn ardal gynllunio Cyngor Sir Benfro, a'r uchelgais tymor hwy i leihau gweithgarwch cloddio o fewn y Parc Cenedlaethol, byddai mantais mewn nodi Ardaloedd Chwilio newydd (hyd yn oed os nad oes angen dyraniadau penodol) er mwyn annog diddordeb yn y dyfodol gan weithredwyr mwynau.
- G) Mae un chwarel craig igneaidd segur yn bodoli yn Sir Benfro. Dylai'r awdurdod cynllunio asesu'r tebygolrwydd y bydd y safle hwn yn cael ei weithio o fewn cyfnod y Cynllun, yn amodol ar gwblhau adolygiad cychwynnol o'r amodau cynllunio a chyflwyno Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

- H) Mae llawer o dir Sir Benfro o fewn radiws 30 milltir i Ddoc Penfro, lle mae agregau o dreillio gwely'r môr yn rhan allanol Môr Hafren yn glanio. Mae rhan ogleddol yr ardal yn nes at safleoedd tywod a graean ar y tir o fewn y Parc Cenedlaethol, sydd i'r de-orllewin o Aberteifi. Efallai y bydd angen ystyried y posibilrwydd, wrth i'r cronfeydd wrth gefn a ganiateir presennol gael eu defnyddio, y gallai fod angen i agregau morol gyfrannu'n fwy helaeth yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, am y tro cynghorir Cyngor Sir Benfro i ganolbwyntio ar gynnal cyflenwadau digonol o ffynonellau ar y tir, a byddai angen profi pob opsiwn ar y tir yn drylwyr gan broses y Cynllun Lleol cyn ystyried newid o'r fath mewn polisi lleol.
- I) Cynhyrchir ychydig o wastraff llechi yn rhan ogleddol y Parc Cenedlaethol ond deellir mai prin iawn fu'r defnydd ohono fel agregau hyd yn hyn, ac mae'n ymddangos na fydd yn cael ei ddefnyddio rhyw lawer yn y dyfodol ychwaith.
- J) Bydd cynhyrchu agregau wedi'u hailgylchu o wastraff adeiladu, dymchwel a chloddio yn debygol o ddigwydd yn bennaf o fewn gwahanol drefi de a chanolbarth Sir Benfro, y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.
- K) Mae'r gofynion gweddilliol am agregau crai a dynnir o'r tir yn rhagdybio y bydd holl ffynonellau agregau amgen (morol, eilaidd a deunyddiau wedi'u hailgylchu) yn parhau i gael eu defnyddio a dylai'r awdurdod barhau i annog hyn.
- L) Dylid diogelu adnoddau agregau creigiau wedi'u malu a thywod a graean ar y tir o fewn y CDLI yn unol â mapiau diogelu Arolwg Daearegol Prydain, neu unrhyw wybodaeth ddaearegol arall a allai fod ar gael ac sy'n addas at y diben hwn.
- M) Dylid nodi pob pen rheilffordd a glanfa presennol a rhai newydd efallai i'w diogelu o fewn y CDLI, er mwyn cynnig ystod lawn o opsiynau trafndiaeth gynaliadwy (p'un a ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ai peidio).

- 4.2 Er gwybodaeth, rhoddwyd cyngor sy'n benodol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn Atodiad B 2^{il} Adolygiad DTRh hefyd. Y dyhead hirdymor yw symud cynhyrchu mwynau y tu allan i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, ond yn y cyfamser mae gwaith cynhyrchu tywod a graean a chreigiau wedi'u malu wedi'u cydsynio ar hyn o bryd. Nid yw'n ofynnol i APCAP greu dyraniadau ar gyfer mwynau.
- 4.3 O dan 2^{il} Adolygiad DTRh, nid yw'n ofynnol yn ffurfiol i'r Cyngor greu dyraniadau ar gyfer tywod a graean, ond mae disgwyliad y bydd cydweithio yn parhau ac mae cyfle i amrywio gofynion 2^{il} Adolygiad DTRh yn bodoli, yn amodol ar gytuno ar SSRC a baratoir ar y cyd ar gyfer is-ranbarth Gorllewin Cymru. Felly, gall CSP benderfynu dyrannu tir ar gyfer cloddio tywod a graean yn CDLI 2, a fyddai'n destun ymgynghoriad cyhoeddus a chraffu annibynnol yn y cam archwilio fel rhan o broses paratoi'r CDLI 2.
- 4.4 Ar hyn o bryd mae CSP yn paratoi SSRC ar fwynau gyda'i phartneriaid is-ranbarthol Gorllewin Cymru yng Nghynghorau Sir Ceredigion a Sir Gâr ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn unol â'r cyngor yn 2^{il} Adolygiad DTRh. Dylid nodi er nad yw Sir Caerfyrddin yn dechnegol yn rhan o is-ranbarth Gorllewin Cymru, mae'r ffaith bod Cyngor Sir Gâr wedi'i gynnwys yn adlewyrchu'r cyngor a roddir yn 2^{il} Adolygiad DTRh.

5 Casgliadau

- 5.1 Nodir uchod darpariaethau 2^{il} Adolygiad DTRh yn gyffredinol ac yn benodol mewn perthynas â chyfrifoldeb cynllunio ardal ddefnyddio tir y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru gymeradwyo dogfennaeth 2^{il} Adolygiad DTRh ac yn unol â hynny, dyna a wnaeth Cabinet Cyngor Sir Benfro ar 30 Tachwedd 2020.
- 5.2 Ers hynny, mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos i baratoi Datganiad o Gydweithrediad Is-ranbarthol ar Fwynau (SSRC) ar gyfer Is-ranbarth Gorllewin Cymru. Bydd hyn yn seiliedig ar ddarpariaethau 2^{il} Adolygiad DTRh ond gall wyro o fanylion ei ddarpariaethau ar gyfer awdurdodau unigol os rhoddir cyfiawnhad addas. Bydd angen i bob Awdurdod Cynllunio Lleol a gymerodd ran yn ei baratoi ac yna'r SWRAWP gytuno ar y SSRC ar gyfer Is-ranbarth Gorllewin Cymru. Nid yw'r gwaith hwn wedi ei orffen ar hyn o bryd.

- 5.3 Rhagwelir y bydd y SSRC yn cyflwyno tystiolaeth i lywio Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd, gan gynnwys un Cyngor Sir Benfro. Rhagwelir y bydd y SSRC yn un o'r dogfennau y bydd CSP yn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn archwilio ei CDLI newydd (CDLI 2).